

Gwasanaethau Gwybodaeth

Adnoddau Cymraeg ar Fwrdd Gwaith Windows INSRV

Disgrifir y canllawiau hyn yr Adnoddau Cymraeg sydd ar gael a Fwrdd Gwaith Windows INSRV a sut i'w cyrraedd.

Cyflwyniad

Mae modd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ddefnyddio pob math o adnoddau Cymraeg trwy gyfrwng rhaglen INSRV Windows, yn enwedig fersiynau Cymraeg o becynnau Microsoft Office 2003 a Windows XP.

Gallwch addasu bwrdd gwaith eich cyfrifiadur yn ôl safon eich Cymraeg. Gellir llwytho'r rhan fwyaf o'r feddalwedd trwy'r rhwydwaith i'w denyddio ar unwaith, ac i alluogi defnyddwyr i newid rhwng Saesneg a'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes modd newid pecyn Windows XP yn ol i Saesneg.


Meddalwedd Gymraeg ar gael drwy'r rhwydwaith

I'r sawl sy'n rhedeg INSRV Windows XP 820 ymlaen, bydd y feddalwedd Gymraeg canlynol ar gael dros y rhwydwaith:

- Office 2003 Cymraeg
- Cysgliad
- Bysellfwrdd Cymraeg

I lwytho unrhyw un o'r adnoddau Cymraeg uchod ewch i'r Fwydlen Windows:


Networked Applications > General Software > Cymraeg



Office 2003 Cymraeg

Cyflwyniad

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffeiliau Excel, PowerPoint a Word gydag Office 2003 Cymraeg. Mae'r holl ddevislenni a dewisiadau ar gael yn y Gymraeg, fel:



Mae'n hawdd gosod pecyn Office Cymraeg, a gallwch newid yn ôl i'r fersiwn Saesneg yn rhwydd hefyd. Nid yw pecynnau Access 2003 a holl ffeiliau cymorth Office wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg eto.

Mae Office 2003 Cymraeg ar gael ar holl gyfrifiaduron personol ar y rhwydwaith drwy newid gosodiadau iaith Office ei hun. Fe allwch chi hefyd newid gosodiadau'r dyddiad i'r Gymraeg a gosod bwrdd gwaith Cymraeg – a fydd yn ei gwneud hi'n haws defnyddio nodau arbennig fel acen grom neu do bach, gan ychwanegu at becynnau Cymraeg sydd eisoes ar gael fel Cysgliad – y geiriadur a'r gwirydd Cymraeg.

Gosod Office 2003 Cymraeg a'i roi ar waith

Cyn gosod yr iaith ryngwyneb i'r Gymraeg, bydd angen gofalu bod y bwrdd gwaith rydych chi'n ei ddefnyddio yn cynnwys rhaglen Office 2003. Gallwch weld hyn trwy fynd i:

Network Applications > General Software > Principal Applications

Os gwelwch chi symbol 'Office 2003 installer', yna bydd angen i chi osod Office 2003 cyn dilyn y cyfarwyddiadau isod.

Ar ôl sicrhau bod Office 2003 wedi'i osod, gwnewch y canlynol:

- Cau pob ffeil Office sydd gennych ar agor
- Rhedeg **Office 2003 Welsh Language Installer** sydd yn y ffolder Cymraeg
- Ar ôl gorffen hyn, rhedeg **Set Office 2003 to Welsh**

Tro nesaf fyddwch chi'n agor ffeil Word, Excel neu Powerpoint, bydd y dewislenni Cymraeg yn ymddangos. D.S. Dim ond yn Saesneg mae Access 2003 a phob ffeil cymorth Office.

I ddychwelyd i'r rhyngwyneb Saesneg unrhyw bryd, gwnewch y canlynol:

- Cau pob ffeil Office a rhedeg **Set Office 2003 to English**.

Gan mai'r defnyddwyr eu hunain sy'n gosod y rhyngwyneb Cymraeg, bydd gosodiadau Word yn ymddangos ym mha bynnag iaith y dewisoch chi ddiwethaf. Er hynny, bydd hyn ond yn wir lle mae Office 2003 Cymraeg ar gael. Os nad yw Office 2003 yn ymddangos yn Gymraeg, bydd angen i chi redeg **Office 2003 Welsh Language Installer** eto.

Mae gan becyn Office 2003 Cymraeg ei wirydd sillafu Cymraeg ei hun. Er hynny, rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio Cysgliad i wirio sillafu Cymraeg.

Cysgliad

Dyma becyn meddalwedd sy'n gwirio camgymeriadau sillafu a gramadeg Cymraeg, ac sy'n cynnwys thesawrws a geiriadur ar-lein. I osod Cysglaid, gwnewch y canlynol:

- Rhedeg **Cysgliad** o'r ddewislen Cymraeg.
- Wrth agor ffeil Word, fe welwch chi fod dwy eitem - Gwirio Dogfen a Cysgeir – wedi'u hychwanegu at eich bar offer.

Os ydych chi'n defnyddio bwrdd gwaith arall, efallai bydd rhaid i chi ailosod Cysgliad hyd yn oed os yw'r bar offer yn Word o hyd.

Bysellfwrdd Cymraeg

Mae bysellfwrdd Cymraeg yn nodi amser a dyddiad yn Gymraeg, ac yn eich galluogi chi i deipio llythrennau ŵ ac ŷ. I osod y bysellfwrdd, gwnewch y canlynol:

- Rhedeg **Set Welsh Keyboard**. Yna, bydd angen i chi allgofnodi a mewngofnodi eto i roi'r newidiadau ar waith.
- I deipio'r llythrennau ŵ ac ŷ, pwyswch yr allwedd Alt_Gr key, yna'r nod to bach ^, yna'r llythrennau 'w' neu 'y'.

Mae angen rhedeg **Set English Keyboard** i ddychwelyd i'r bysellfwrdd Saesneg. Unwaith eto, bydd angen i chi allgofnodi a mewngofnodi eto i roi'r newidiadau ar waith.

Windows XP Cymraeg

Gyda XP Cymraeg, gallwch weld gorchmynion a dewislenni'ch bwrdd gwaith, ac Internet Explorer, yn Gymraeg. Ond yn wahanol i Office 2003 Cymraeg, allwch chi ddim newid o un iaith i'r llall mor hawdd ar ôl gosod XP Cymraeg ar gyfrifiadur personol.

Felly, mae XP Cymraeg ar gael ar gais i staff sydd â chyfrifiadur personol penodol yn y gwaith, ac mae hefyd ar gyfrifiaduron personol Cymraeg penodol yn yr ystafelloedd TG sy'n hygyrch i bawb — yn Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol a Chanolfan Astudio Julian Hodge i ddechrau.

Gosod XP Cymraeg ar eich cyfrifiadur personol yn y gwaith (Staff)

Os ydych chi'n un o staff y brifysgol sy'n dymuno cael XP Cymraeg, ystyriwch a fydd eich cydweithwyr yn rhannu ac yn defnyddio'r un cyfrifiadur â chi i ddechrau. Dylech ond gosod XP Cymraeg os yw pawb sy'n defnyddio'r un cyfrifiadur yn gallu siarad Cymraeg.


Cysylltwch â chynrychiolydd cyfrifiaduron eich Ysgol neu'ch Cyfarwyddiaeth i osod Windows Cymraeg ar eich cyfrifiadur personol yn y gwaith.

Cofiwch – ar ôl gosod Windows Cymraeg, does dim modd ei ddadosod yn hawdd iawn.

Defnyddio XP Cymraeg am y tro cyntaf

Pan fyddwch chi'n mewngofnodi i fwrdd gwaith XP Cymraeg am y tro cyntaf, bydd angen i chi newid yr iaith ryngwyneb i'r Gymraeg.

Gallwch wneud hyn trwy agor y ffeil Cymraeg:



- **Networked Applications > General Software > Cymraeg**
- Dewiswch **Set Welsh Windows Interface**
- Ar ôl i chi wneud hyn, rhaid i chi allgofnodi a mewngofnodi eto.

Ar ôl i chi fewngofnodi eto, fe welwch chi mai Cymraeg yw iaith y bwrdd gwaith ac Internet Explorer bellach. Ni ddylech orfod gwneud hyn eto mewn unrhyw fwrdd gwaith XP Cymraeg.

Gosod XP Cymraeg ar gyfrifiaduron personol preifat

Dylai staff neu fyfyrwyr sy'n dymuno gosod XP Cymraeg ar eu cyfrifiadur personol neu liniadur gartref gysylltu â Bwrdd yr Iaith (<http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/>) i lawrlwytho'r meddalwedd, neu i gael copi o'r CD (y naill a'r llall yn rhad ac am ddim).

Nid yw hyn yn berthnasol i'r cyfrifiaduron personol sydd ar rwydwaith y brifysgol ar y campws.